



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Gorffennaf 2019

**PC 04: SA/SEA – Strategaeth a Ffeirir
Crynodeb Annhechnegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.



now part of



Adolygiad o CDLI Conwy

Crynodeb Annhechnegol – Arfarniad o Gynaliadwyedd Dogfennau Cyn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol (Strategaeth a Ffeirir y CDLI)

Ar ran **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**



Cyf. Prosiect: 44061/004i1 | Diwygiad: TERFYNOL | Dyddiad: Mehefin 2019

Swyddfa Gofrestredig: Buckingham Court Kingsmead Business Park, London Road, High Wycombe, Buckinghamshire, HP11 1JU
Cyfeiriad y Swyddfa: 2nd Floor, 160 West George Street, Glasgow G2 2HG
T: +44 (0)141 352 2360 E: glasgow@peterbrett.com

Dalen Rheoli Dogfen

Enw'r Prosiect:	Adolygiad o CDLI Conwy
Cyf. Prosiect:	44061
Enw'r Adroddiad:	Crynodeb Annhechnegol – AG Dogfennau Cyn Adneuo'r CDLI
Cyf. Dogfen:	44061r004i1
Dyddiad:	Mehefin 2019

	Enw	Swydd	Llofnod	Dyddiad
Paratowyd gan:	Helen Skimming Michael O'Sullivan	Cynllunydd Gradeddig Uwch Gynllunydd	HS MOS	14.16.2019
Adolygwyd gan:	Duncan Smart	Cynllunydd Cyswllt	DS	19.06.2019
Cymeradwywyd gan:	Bernard Greep	Cyfarwyddwr: Cynllunio a Thwf – Pwerdy Gogledd Lloegr	BG	20.06.2019
Dros ac ar ran Peter Brett Associates LLP				

Diwygiad	Dyddiad	Disgrifiad	Paratowyd	Adolygwyd	Cymeradwywyd

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Peter Brett Associates LLP ('PBA') ar ran ei gleient ('y Cleient') y cyflwynir yr adroddiad hwn iddo mewn cysylltiad â'r prosiect sydd wedi'i ddisgrifio yn yr adroddiad hwn ac mae'n cymryd cyfarwyddiadau a gofynion penodol y Cleient i ystyriaeth. Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r penodiad gwasanaethau proffesiynol y penodwyd PBA o dano gan ei Gleient. Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno (h.y. parti'on heblaw'r Cleient). Nid yw PBA yn derbyn unrhyw ddyletswydd na chyfrifoldeb (yn cynnwys drwy esgeulustod) tuag at unrhyw barti heblaw'r Cleient ac mae'n ymwadu â phob atebolrwydd o ba fath bynnag i unrhyw barti o'r fath mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
1.1	Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
1.2	Strategaeth a Ffefrir CDLI Conwy	1
1.3	Sut i Wneud Sylw am yr Adroddiad AG hwn	Error! Bookmark not defined.
2	Cyd-destun Amgylcheddol a Pholisi	Error! Bookmark not defined.
2.1	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Error! Bookmark not defined.
2.2	Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau	Error! Bookmark not defined.
2.3	Sut Byddai'r Amodau Llinell Sylfaen wedi Datblygu yn Niffyg yr Adolygiad o'r CDLI	Error! Bookmark not defined.
3	Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Error! Bookmark not defined.
3.1	Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
3.2	Tîm Prosiect yr AG.....	Error! Bookmark not defined.
3.3	Adrodd Blaenorol ar yr AG a'r AAS.....	Error! Bookmark not defined.
3.4	Paratoi'r Adroddiad AG hwn	Error! Bookmark not defined.
4	Canfyddiadau'r AG	Error! Bookmark not defined.
4.1	Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
4.2	AG Fframwaith Strategol Arfaethedig y CDLI.....	Error! Bookmark not defined.
4.3	AG y Safleoedd Strategol.....	Error! Bookmark not defined.
4.4	AG y Polisiâu Strategol	Error! Bookmark not defined.
5	Argymhellion ar gyfer Lliniaru a Gwella	Error! Bookmark not defined.
5.1	Trosolwg	Error! Bookmark not defined.
5.2	Argymhellion ar Fframwaith Strategol y CDLI	Error! Bookmark not defined.
5.3	Argymhellion ar y Mecanwaith Gweithredu	Error! Bookmark not defined.
5.4	Y Camau Nesaf	Error! Bookmark not defined.

Tablau

Tabl CA 2.1: Materion Cynaliadwyedd Allweddol sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad o CDLI Conwy.....	2
Tabl CA 4.1: Amcanion Strategol Arfaethedig y CDLI	11

Atodiad

Atodiad A	Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy
-----------	-----------------------------------------

1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1 Comisiynwyd Peter Brett Associates (PBA), sydd bellach yn rhan o Stantec, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), o'r Adolygiad o CDLI Conwy a CDLI Newydd Conwy sy'n cael ei ddatblygu ('y CDLI newydd'). Mae'r Crynodeb Annhechnegol (CA) hwn o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ('Adroddiad yr AG') yn cofnodi canfyddiadau'r AG a gynhaliwyd mewn perthynas â Dogfennau Cyn Adneuo CDLI Conwy a gyhoeddwyd yn unol â Rheoliad 15 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu (Cymru) 2005, yn cynnwys Strategaeth a Ffefrir CDLI Conwy ('Strategaeth a Ffefrir y CDLI').
- 1.1.2 O dan Adran 62(6) o Ddeddf 2004, mae angen gwneud Arfarniad o Gynaliadwyedd CDLIau sy'n cael eu datblygu. Mae hyn yn ofyniad statudol i lywio'r broses o ddewis a datblygu polisiau a chynigion i'w cynnwys mewn CDLIau yn nhermau eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd dichonol. O dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ('y Rheoliadau AAS') mae'n ofynnol bod Awdurdodau Cyfrifol, yn cynnwys awdurdodau lleol fel CBSC, yn asesu'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol o weithredu cynlluniau a rhaglenni perthnasol, sydd wedi'u diffinio yn y rheoliadau. Mae'r AG a'r AAS yn rhoi sylw i'r un meysydd wrth asesu perfformiad amgylcheddol a pherfformiad cyffredinol o ran cynaliadwyedd, felly gellir eu cynnal ac adrodd arnynt gyda'i gilydd.

1.2 Strategaeth a Ffefrir CDLI Conwy

- 1.2.1 Yn unol â gofynion statudol, mae Strategaeth a Ffefrir CDLI Conwy yn cael ei chyhoeddi i gyfrannu at ddatblygu CDLI Newydd Conwy ('y CDLI Newydd'). Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn gosod fframwaith strategol arfaethedig i fod yn sail i'r CDLI Newydd, yn cynnwys Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Strategaeth Twf y CDLI, wedi'i ategu gan Safleoedd Strategol Allweddol a Pholisiau Strategol arfaethedig. Bydd yr elfennau strategol hyn yn cael eu datblygu ymhellach i roi sylw i ganfyddiadau'r AG hwn a'r holl sylwadau a gyflwynir mewn perthynas â Dogfennau Cyn Adneuo CDLI Conwy, a bydd cynnwys arfaethedig terfynol y CDLI Newydd yn cael ei gadarnhau yn Nogfennau Adneuo CDLI Conwy (a ddisgwyilir yn Ionawr 2021).

1.3 Sut i Wneud Sylw am yr Adroddiad AG hwn

- 1.3.1 Ymgynghorir ar y Crynodeb Annhechnegol o Adroddiad yr AG ochr yn ochr â Dogfennau Cyn Adneuo CDLI Conwy, yn cynnwys Strategaeth a Ffefrir y CDLI. Gellir cyflwyno sylwadau am yr holl ddogfennau hyn drwy'r e-bost yn cdli-ldp@conwy.gov.uk. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu am ffyrdd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar wefan CBSC ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLI: <http://www.conwy.gov.uk/RLDP>.

2 Cyd-destun Amgylcheddol a Pholisi

2.1 Materion Cynaliadwyedd Allweddol

2.1.1 Mae crynodeb o'r materion cynaliadwyedd allweddol y bydd angen eu hystyried yn y CDLI Newydd a'r AG cysylltiedig yn **Nhabl CA 2.1** isod. Mae'r CDLI Newydd a'r AG hwn yn canolbwyntio ar ddelio â'r materion cynaliadwyedd hyn.

Tabl CA 2.1: Materion Cynaliadwyedd Allweddol sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad o CDLI Conwy

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid	<p>Yr angen i gadw, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, yn cynnwys rhywogaethau a safleoedd pwysig a ddynodwyd am resymau sy'n ymwneud â chynnal bioamrywiaeth neu bwysigrwydd ecolegol. Mae hyn yn ymwneud â gwarchod safleoedd a ddynodwyd sydd o fewn ardal CBSC (yn cynnwys rhai y tu mewn a'r tu allan i'r ardal sydd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri) yn ogystal â safleoedd a ddynodwyd yn ardaloedd awdurdodau cyfagos, y gall pob un ohonynt fod yn agored i effaith yr Adolygiad o'r CDLI a gweithgarwch datblygu yn ardal CBSC.</p> <p>Yr angen i ddiogelu a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn ardal CBSC a chysylltiadau seilwaith gwyrdd ag ardaloedd awdurdodau cyfagos. Mae rhwydweithiau gwyrdd yn bwysig iawn ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystemau a chysylltedd rhwng cynefinoedd mewn hinsawdd sy'n newid.</p>
Poblogaeth (yn cynnwys materion cymdeithasol-economaidd perthnasol)	<p>Yr angen i sicrhau'r buddion cymdeithasol-economaidd mwyaf posibl drwy weithredu Bargaen Twf y Gogledd sy'n cael ei datblygu.</p> <p>Yr angen am gysondeb wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol dichonol ar gyfer coridor yr A55.</p> <p>Yr angen i ddarparu nifer digonol o dai newydd o ansawdd da mewn lleoliadau priodol i gwrdd â'r gwahanol anghenion a bennwyd.</p> <p>Yr angen i sicrhau twf economaidd a chynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth, yn cynnwys rhai i breswylwyr lleol.</p> <p>Yr angen i fynd i'r afael ag amddifadedd, yn cynnwys ardaloedd lle mae amddifadedd ar hyn o bryd sy'n gysylltiedig â hygyrchedd gwael at wasanaethau allweddol, cyfleusterau a chyfleoedd economaidd.</p> <p>Yr angen i sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn briodol a hygyrch i ddefnyddwyr er mwyn cwrdd â gwahanol anghenion preswylwyr a gweithwyr.</p> <p>Yr angen i wella hygyrchedd at gyrchfannau allweddol yn ardal CBSC ac at leoliadau allweddol eraill drwy wella'r rhwydwaith trafniadaeth.</p>
Iechyd Pobl	Yr angen i wella pob agwedd ar iechyd a llesiant y boblogaeth, yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant cymdeithasol, diogelwch pobl ac eiddo.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	<p>Yr angen i ddiogelu a gwella mynediad at ddarpariaeth o fannau agored o ansawdd da a llwybrau teithio llesol.</p> <p>Yr angen i greu amgylcheddau trefol iach y gellir byw ynddynt.</p>
Pridd	<p>Yr angen i hybu a/neu hwyluso datblygu ar safleoedd tir llwyd a ddatblygwyd o'r blaen.</p> <p>Yr angen i ddefnyddio'r tir sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac i roi blaenoriaeth i ailddatblygu tir llwyd.</p> <p>Yr angen i ddiogelu geoamrywiaeth ac adnoddau pridd pwysig ac i adfer ardaloedd y gwyddom eu bod wedi'u halogi.</p> <p>Yr angen i ddiogelu ac adfer mawndiroedd.</p>
Dŵr	<p>Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd ffynonellau dŵr a'r amgylchedd dŵr. Mae hyn yn cynnwys diogelu cyrsiau dŵr sy'n croesi ffiniau sy'n llifo drwy ardal CBSC ac i Afon Conwy sy'n llifo tua'r gogledd i Afon Menai ym Môr Iwerddon.</p> <p>Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl o lifogydd neu i liniaru'r holl risgiau dichonol, gan ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a pheryglon llifogydd o'r holl ffynonellau (môr, afonydd, dŵr wyneb, cronfeydd dŵr a/neu ddŵr daear).</p>
Aer	<p>Yr angen i leihau allyriadau o lygryddion aer.</p> <p>Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd aer, yn cynnwys drwy roi sylw i ardaloedd lle mae ansawdd aer gwael.</p>
Ffactorau Hinsawdd	<p>Yr angen i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig a'r seilwaith yn gydnerth a'u bod yn gallu ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan ystyried bod ardal CBSC ar yr arfordir.</p> <p>Yr angen i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys drwy ddatgarboneiddio sectorau economaidd allweddol.</p>
Asedau Materol	<p>Yr angen i ddefnyddio tir, adnoddau naturiol a'r seilwaith presennol yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hyn yn cynnwys yr angen i roi blaenoriaeth i ailddatblygu tir llwyd.</p>
Treftadaeth Ddiwylliannol	<p>Yr angen i gadw, gwarchod a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u lleoliadau yn ardal CBSC.</p> <p>Yr angen i ddiogelu a hybu'r defnydd o'r Gymraeg.</p>
Tirwedd	<p>Yr angen i ddiogelu a gwella cymeriad y dirwedd, cymeriad y treflun, cymeriad y morwedd, golygfeydd allweddol ac amwynder gweledol. Mae hyn yn cynnwys diogelu tirweddau ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn ardaloedd awdurdodau cyfagos, yn ogystal ag arfordiroedd treftadaeth ac ardaloedd cymeriad morol.</p>
Effeithiau Cydgysylltiedig	<p>Yr angen i sicrhau gwelliannau cyfannol mewn llesiant ac i gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy ledled ardal CBSC.</p>

- 2.1.2 Mae tystiolaeth am y materion cynaliadwyedd allweddol a restrwyd yn **Nhabl 2.1** mewn Papurau Cefndir a Phwnc perthnasol a baratowyd ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLI ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y prif gynigion sydd yn Strategaeth a Ffeirir y CDLI. Yn gyffredinol, mae hyn yn helpu i sicrhau bod y CDLI Newydd yn ymateb wrth ei ddatblygu i faterion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd drwy broses yr AG. Er hynny, bydd angen rhoi sylw o hyd i bob cydran bwysig sy'n datblygu yn y CDLI Newydd ar ei phen ei hun ac ar y cyd i benderfynu eu heffeithiau arwyddocaol tebygol a'r graddau y maent yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy.

2.2 Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau

- 2.2.1 Archwiliwyd y mathau canlynol o gynlluniau a rhaglenni i weld a oeddent yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLI a'r AG hwn:
- Confensiynau a chytuniadau rhyngwladol;
 - Cyfarwyddbau Ewropeaidd a deddfwriaeth gysylltiedig;
 - Deddfwriaeth sydd wedi'i gwneud gan Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - Dogfennau polisi a strategaethau a gyhoeddwyd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn cynnwys y rheini a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru (a'i hasiantaethau) a CBSC.
- 2.2.2 Darparwyd adolygiad manwl o'r cynlluniau a rhaglenni eraill y nodwyd eu bod yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLI yn **Atodiad B**. Mae'n glir o'r adolygiad hwn y dylai'r CDLI Newydd:
- Fod yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol sydd wedi'u nodi yn Polisi Cynllunio Cymru (PCC) – 10^{fed} Argraffiad (Rhagfyr 2018);
 - Ceisio manteisio ar y cyfleoedd economaidd-gymdeithasol a geir o Fargen Twf y Gogledd sydd yn yr arfaeth;
 - Bod yn gyson â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru a'r camau i baratoi Cynllun Datblygu Strategol dichonol ar gyfer Coridor yr A55;
 - Ceisio gwella pob agwedd ar iechyd a llesiant i boblogaeth ardal CBSC, yn cynnwys drwy ddarparu seilwaith iechyd o ansawdd da, gwella iechyd corfforol a meddyliol a darparu cyfleoedd i wella llesiant cymdeithasol. Rhaid i'r CDLI geisio cyflawni'r amcanion llesiant a ddiffiniwyd yn lleol sydd yng Nghynllun Llesiant Conwy (2018-2023);
 - Sicrhau twf economaidd cynaliadwy a mewnfuddsoddi ledled ardal CBSC drwy ddyrannu safleoedd addas i'w datblygu a thrwy sicrhau'r seilwaith sydd ei angen i gynyddu cysylltedd, gwella seilwaith cymunedol a chymdeithasol a sicrhau bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac economaidd o ansawdd da ar gael. Bydd yn bwysig hefyd fod y CDLI yn gosod strategaeth ofodol sy'n cynyddu cystadleurwydd economaidd ardal CBSC ac yn gwella llesiant cymdeithasol, gan ystyried ei lleoliad gwledig a'r amodau economaidd-gymdeithasol presennol;
 - Adnabod anghenion yr holl breswylwyr a gweithwyr yn ardal CBSC a chynllunio i'w diwallu, yn enwedig mewn perthynas â darparu seilwaith cymunedol digonol;
 - Sicrhau tai fforddiadwy a gynlluniwyd yn dda i gwrdd ag anghenion tai a bennwyd, yn cynnwys darparu amrywiaeth o feintiau a deiliadaethau;
 - Lleihau'r ddibyniaeth ar geir a gwella'r seilwaith teithio llesol;
 - Sicrhau cysylltiadau trafndiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus gwell ac ehangach, a gwell seilwaith cyfathrebu, i gyrraedd cymunedau o fewn ardal CBSC a chyrchfannau allweddol yn ardaloedd awdurdodau cyfagos;

- Diogelu a gwella mynediad at gyfleusterau chwaraeon awyr agored, parciau a mannau agored o ansawdd da;
 - Cadw, gwarchod a gwella safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol am resymau sy'n ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth, pwysigrwydd ecolegol, pwysigrwydd daearegol neu arwyddocâd treftadaeth, mewn ffyrdd sy'n briodol i'w statws;
 - Datblygu technegau effeithiol i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn ymateb i farn cymunedau ehangach a hwyluso cydlyniant cymunedol effeithiol;
 - Hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau, yn cynnwys newid i economi carbon isel, defnyddio gwastraff fel adnodd, adeiladau sy'n arbed ynni, ac ynni adnewyddadwy a charbon isel priodol;
 - Cymryd camau i ddiogelu ansawdd aer a cheisio lliniaru effeithiau unrhyw weithgarwch a allai effeithio ar ansawdd aer ledled ardal CBSC;
 - Sicrhau na cheir effeithiau negyddol arwyddocaol ar safleoedd natur a ddynodwyd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol (mae rhagor o fanylion yn Adroddiad Sgrinio Cychwynnol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd);
 - Ystyried yn llawn yr effeithiau dichonol ar ddŵr, yn cynnwys ansawdd dŵr, ecosystemau, defnyddio dŵr yn gynaliadwy, capasiti carthffosydd, perygl o lifogydd a chyfluoedd i reoli perygl llifogydd yn well;
 - Chwilio am ffyrdd i gynyddu'r seilwaith gwyrdd aml-swyddogaeth a sicrhau eu bod yn darparu rhwydwaith o goridorau bywyd gwyllt cysylltiedig (ar wahanol raddfeydd) a chynyddu gwasanaethau ecosystemau yn cynnwys bioamrywiaeth;
 - Chwilio am ffyrdd i gynyddu'r buddion i iechyd o'r seilwaith gwyrdd;
 - Defnyddio tir yn effeithlon drwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen;
 - Ystyried ansawdd pridd a dosbarthiadau tir amaethyddol wrth asesu safleoedd datblygu dichonol;
 - Cydnabod y gwahanol dirweddau yn ardal CBSC a Pharc Cenedlaethol Eryri a'u gallu i oddef newid;
 - Hyrwyddo datblygu sy'n lleihau effeithiau ar y dirwedd ac yn diogelu tirweddau yn ôl eu harwyddocâd.
- 2.2.3 Yn yr un modd â'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd, mae'r materion polisi allweddol a nodwyd yn cael eu trafod mewn Papurau Cefndir a Phwnc perthnasol a baratowyd ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLI ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y prif gynigion yn Strategaeth a Ffeifrir y CDLI. Yn gyffredinol, mae hyn yn helpu i sicrhau bod y CDLI Newydd yn ymateb wrth ei ddatblygu i ofynion cymwysadwy mewn deddfwriaeth a pholisi.

2.3 Sut Byddai'r Amodau Llinell Sylfaen wedi Datblygu yn Niffyg yr Adolygiad o'r CDLI

- 2.3.1 Drwy ystyried y wybodaeth amgylcheddol a ddarparwyd uchod, mae'r adran hon yn ymateb i'r gofyniad yn y Rheoliadau AAS i ystyried sut byddai amodau presennol yr amgylchedd yn debygol o fod wedi datblygu yn niffyg y cynllun neu raglen sydd dan sylw, sef yr Adolygiad o'r CDLI.
- 2.3.2 Mae CBSC wedi penderfynu bod angen cynnal adolygiad o'r CDLI presennol (a fabwysiadwyd yn Hydref 2013) fel y gellir paratoi a mabwysiadu CDLI Newydd cyn i gyfnod y CDLI presennol ddod i ben yn 2022. Mae'r Adroddiad ar yr Adolygiad o CDLI Conwy (CBSC, Ebrill 2018) yn dod i'r casgliad bod angen dilyn gweithdrefn yr 'Adolygiad Llawn' er mwyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r CDLI presennol a pharatoi CDLI Newydd, yn hytrach na'r weithdrefn fyr a fyddai'n arwain at ddiwygiadau bach yn unig (e.e. newidiadau yng ngeiriad polisïau penodol neu ychwanegu safleoedd a ddyrannwyd

unigol) yn y CDLI presennol. Credir bod angen CDLI newydd er mwyn rhoi sylw i nifer o Ddeddfau, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol newydd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ers mabwysiadu'r CDLI presennol.

- 2.3.3 Heb gynnal Adolygiad o'r CDLI, ni fyddai CBSC yn gallu paratoi CDLI newydd (fel y cynigiwyd) na chynnig diwygiadau bach yn y CDLI presennol cyn iddo ddod i ben yn 2022. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg polisi ar lefel leol gan nad yw Deddf 2004 yn caniatáu i CDLIau yng Nghymru barhau mewn grym ar ôl eu dyddiad dod i ben. Mae hyn yn golygu na fyddai Cynllun Datblygu statudol cymwys ar ôl 2022 ar gyfer y rhan o ardal CBSC sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri (sy'n dod o dan CDLI ar wahân). Byddai hefyd yn groes i TAN1, sy'n nodi y bydd canfod unrhyw ddiffyg yng nghyflenwad tir pum mlynedd mewn awdurdod yn sbarduno adolygiad o'r CDLI i sicrhau bod modd cadw cyflenwad digonol o dir. Mae'r Adroddiad ar yr Adolygiad o CDLI Conwy (Ebrill 2018) yn ei gwneud yn glir y byddai'r diwydiant datblygu yn debygol o gamfanteisio ar y ffaith nad oedd Cynllun Datblygu statudol cymwys ar gyfer ardal CBSC, yn bennaf oherwydd diffyg yn y cyflenwad o dir a ddynodwyd ar gyfer tai. Yn yr amgylchiadau hyn, mae datblygu'n debygol o ddod ymlaen sy'n anghyson â strategaeth ofodol y CDLI presennol a byddai pwysau sylweddol i ryddhau safleoedd maes glas mewn lleoliadau anghynaliadwy.

3 Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg ar broses yr AG, sy'n cynnwys AAS, a gynhaliwyd hyd yma ar gyfer CDLI Newydd Conwy. Wrth wneud hynny, mae'r adran yn egluro'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr AG o'r Dogfennau Cyn Adneuo.

3.2 Tîm Prosiect yr AG

3.2.1 Cynhelir yr AG y CDLI Newydd yn annibynnol gan PBA ar ran CBSC. Cyn hyn, roedd PBA wedi cynnal yr AG, yn cynnwys AAS, o CDLI cyntaf Conwy, a fabwysiadwyd gan CBSC yn 2013.

3.2.2 Mae annibyniaeth y tîm ymgynghorol sy'n ymwneud â chynnal yr AG hwn yn helpu i sicrhau bod yr AG yn wrthrychol ac i nodi cydrannau y mae angen eu gwella drwy gydol y broses o'i ddatblygu. Mae hyn yn rhoi'r gallu i ddatblygu a gweithredu argymhellion annibynnol ar gyfer lliniaru a gwella wrth i'r CDLI Newydd gael ei ddatblygu er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol.

3.3 Adrodd Blaenorol ar yr AG a'r AAS

3.3.1 Cynhaliwyd dau gam blaenorol ym mhroses yr AG (yn cynnwys AAS) ar gyfer y CDLI Newydd:

Sgrinio a Chwmpasu'r AG a'r AAS

3.3.2 Yn Awst 2018 ymgynghorwyd ar Adroddiad Cwmpasu AG, yn cynnwys sgrinio'r AAS, â Chyrff Ymgynghori'r AAS¹, ac wedyn cyhoeddwyd Penderfyniad Sgrinio AAS statudol gan CBSC.

3.3.3 Dau bwrpas yr Adroddiad Cwmpasu AG oedd darparu gwybodaeth berthnasol i alluogi Cyrff Ymgynghori'r AAS i ystyried yr angen am AAS a ffurfio barn am y cyfnod ymgynghori a chwmpas/lefel y manylder sy'n briodol ar gyfer Adroddiad(au) AG a gyhoeddir gyda phob cydran sylweddol yn y CDLI Newydd. Un o amcanion allweddol yr Adroddiad Cwmpasu AG oedd pennu Fframwaith AG seiliedig ar dystiolaeth i asesu'n systematig yr effeithiau tebygol ar gynaliadwyedd o gydrannau sylweddol yn y CDLI Newydd. Ar ôl cynnwys newidiadau bach y gofynnwyd amdanynt gan Gyrff Ymgynghori'r AAS drwy'r broses Cwmpasu, mae'r Fframwaith AG terfynol ar gyfer yr Adolygiad o CDLI Conwy a ddefnyddir i asesu'r CDLI Newydd wrth ei ddatblygu wedi'i ddarparu'n llawn yn **Atodiad A – Fframwaith yr AG**.

Adroddiad yr AG ar Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau CDLI Conwy

3.3.4 Dechreuodd y cam asesu ym mhroses yr AG yn Rhagfyr 2018 drwy gynnal AG cymesur, yn cynnwys AAS, o Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau arfaethedig cychwynnol y CDLI (lefelau twf a dosbarthiad gofodol) sydd wedi'u disgrifio mewn set o bapurau ymgynghori. Cyhoeddwyd adroddiad AG gyda'r papurau ymgynghori hyn a oedd yn cynnwys set o argymhellion ar Strategaeth a Ffeirir y CDLI, yn cynnwys awgrym am Weledigaeth wahanol i'r CDLI sydd wedi'i ystyried wedyn gan CBSC.

3.4 Paratoi'r Adroddiad AG hwn

3.4.1 Yn unol â Rheoliadau 14 a 15 o Reoliadau 2005, ymgynghorir ar Strategaeth a Ffeirir y CDLI i gyfrannu at ddatblygu'r CDLI Newydd a nodwyd fframwaith strategol arfaethedig a chynigion gweithredu strategol, sy'n cynnwys:

- Fframwaith Strategol: Gweledigaeth, Amcanion Strategol; a Strategaeth Twf y CDLI;

¹ Cadw; Cyfoeth Naturiol Cymru; a Llywodraeth Cymru.

- Gweithredu: Safleoedd Strategol Allweddol; a Pholisïau Strategol.

AG Elfennau'r Fframwaith Strategol

- 3.4.2 Mae'r AG elfennau'r fframwaith strategol yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI wedi'i ddisgrifio yn **Atodiad D** i'r prif Adroddiad AG ac wedi'i grynhoi yn **Adran 4.2** isod. Oherwydd natur lefel uchel elfennau arfaethedig y fframwaith strategol yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI (Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth Twf y CDLI) nid oedd yn bosibl nodi'n sicr a fyddai'r cydrannau hyn ar eu pen eu hunain yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Yn lle hynny, roedd yr AG yn canolbwyntio yn y cam hwn ar sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd yn y fframwaith strategol, o'u darllen gyda'i gilydd, fel y gellid ymdrin yn fwy manwl â'r materion hyn drwy gydrannau eraill yn y CDLI a fydd yn ceisio cyflawni elfennau'r fframwaith strategol yn y pen draw. Roedd y matricesau a'r system sgorio a fabwysiadwyd hefyd yn caniatáu nodi unrhyw bethau anghydweddol, anghyson neu ansicr a datblygu argymhellion cysylltiedig ar gyfer lliniaru a gwella.

AG Safleoedd Ymgeisiol

- 3.4.3 Mae pob un o'r 35 o safleoedd strategol ymgeisiol rhesymol eraill wedi'i asesu i'r un graddau, fel yr adroddwyd yn **Papur Cefndir 6 – Darparu Safleoedd Strategol** a baratowyd gan CBSC, ac archwiliwyd yr holl safleoedd hefyd o ran eu heffeithiau dichonol ar Safleoedd Ewropeaidd dynodedig yn Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Nogfennau Cyn Adneuo yr Adolygiad o CDLI Conwy (PBA, Mehefin 2018). Ar y sail hon, a chan gofio'r angen i osgoi dyblygu, nid yw'r Adroddiad AG hwn yn atgynhyrchu'r asesiad o safleoedd strategol ymgeisiol. Yn lle hynny, mae **Adran 5.3** isod yn darparu adolygiad o'r broses asesu safleoedd a'r meini prawf a fabwysiadwyd gan CBSC i ddangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion craidd yr AG a'r AAS ac i dynnu sylw at brif ganfyddiadau'r asesiadau.

AG Polisiâu Strategol

- 3.4.4 Mae'r AG y set o bolisiâu strategol arfaethedig yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI wedi'i ddangos yn **Atodiad E** i'r prif Adroddiad AG ac wedi'i grynhoi yn Adran 4.4 isod. Er mwyn eu trin yn gymesur, mae'r holl grwpiau thematig o bolisiâu strategol wedi'u asesu gyda'i gilydd mewn un matrix. Er bod y polisiâu o reidrwydd yn rhai lefel uchel, roedd y ffaith eu bod yn cynnwys ymrwymadau, gofynion a phroffion polisi penodol yn rhoi'r gallu i gynnal AG cymharol fanwl (yn cynnwys AAS). Felly mae'r matricesau arfarnu polisi yn canolbwyntio ar nodi effeithiau arwyddocaol tebygol lle y bo modd, yn hytrach na dim ond ystyried a oedd y polisiâu strategol arfaethedig yn Fframwaith AG CDLI Conwy yn cydweddu (**Atodiad A**).
- 3.4.5 Lle'r oedd yr AG wedi nodi ansicrwydd, anghysondeb neu'r posibilrwydd o ddiffyg cydweddu mewn cydran a aseswyd ag Amcanion yr AG (neu, yn fwy cyffredinol, â Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy), roedd tîm prosiect yr AG wedi datblygu argymhellion cyfatebol i liniaru neu wella'r materion hyn. Mae rhestr o'r holl argymhellion yn **Adran 6**. Dylai CBSC ystyried yr argymhellion hyn ar gyfer fersiwn nesaf y CDLI Newydd, h.y. wrth baratoi Dogfen Adneuo CDLI Conwy.

4 Canfyddiadau'r AG

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Cynhaliwyd AG, yn cynnwys AAS, ar gyfer pob un o Ddogfennau Cyn Adneuo CDLI Conwy, h.y. Strategaeth a Ffefrir y CDLI. Mae holl gydrannau canlynol y cynllun wedi bod yn destun AAS ac maent yn cael eu hystyried isod yn eu tro:

- Fframwaith Strategol:
 - Gweledigaeth y CDLI;
 - Amcanion Strategol;
 - Strategaeth Twf
- Gweithredu:
 - Safleoedd Strategol Allweddol;
 - Polisiâu Strategol

4.1.2 Mae **Adran 5** o brif adroddiad yr AG yn crynhoi canfyddiadau'r AG, tra darparwyd matricsau manwl yr AG ar gyfer pob cydran o'r cynllun ar wahân yn yr atodiadau canlynol i brif adroddiad yr AG:

- Atodiad D – AG Fframwaith Strategol y CDLI;
- Atodiad E – AG y Polisiâu Strategol

4.2 AG Fframwaith Strategol Arfaethedig y CDLI

4.2.1 Mae cydrannau'r Weledigaeth, yr Amcanion Strategol a'r Strategaeth Twf yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn ceisio darparu fframwaith strategol cyffredinol yn sail i holl gydrannau eraill y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu, yn cynnwys polisiâu a safleoedd a ddyrannwyd. Oherwydd hynny, mae'n hollbwysig bod Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI yn cynnwys ymdriniaeth ddigonol a diamwys â'r holl faterion cynaliadwyedd allweddol fel y gellir ymdrin â'r rhain yn fwy manwl drwy gydrannau anstrategol eraill y CDLI Newydd. Mae argymhellion i hybu effeithiolrwydd cyffredinol a phwrpas strategol yr elfennau fframwaith strategol hyn yn y CDLI Newydd wedi'u crynhoi yn **Adran 5** o'r Crynodeb Annhechnegol hwn, a dylai CBSC eu hystyried wrth baratoi Dogfen Adneuo'r CDLI.

Gweledigaeth

4.2.2 Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn cyflwyno Gweledigaeth ar gyfer twf Conwy dros gyfnod y CDLI Newydd hyd 2033. Mae'r Weledigaeth hon wedi'i bwriadu i integreiddio CDLI Newydd Conwy â Chynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Canlyniadau Lluio Lleuedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a strwythur thematig PCC – 10^{ed} Argraffiad (2018). O ganlyniad i hyn, mae Gweledigaeth arfaethedig y CDLI wedi'i seilio ar ddefnyddio dull llunio lleoedd fel modd i sicrhau canlyniadau llesiant cyffredinol.

A.1.1 Ar y cam blaenorol wrth baratoi'r cynllun, roedd yr AG y drafft gwreiddiol o Weledigaeth y CDLI wedi nodi'r pwyslais a roddwyd ar lunio lleoedd, ond cododd bryderon ynghylch y diffyg sylw i faterion cynaliadwyedd penodol neu broblemau cynllunio. Felly lluniwyd Gweledigaeth wahanol

ar gyfer y CDLI, a oedd yn parhau i ganolbwyntio ar lunio lleoedd ond hefyd yn nodi problemau gofodol allweddol, priodweddau a chanlyniadau i Gonwy drwy broses yr AG ac ymgynghorwyd arni yn Rhagfyr 2018. Gan adeiladu ar y gwaith blaenorol hwn, mae Strategaeth a Ffeifir y CDLI bellach yn cynnwys fersiwn lawnach o Weledigaeth y CDLI yr ymgynghorwyd arni o'r blaen. Y prif newidiadau yw:

- Sylw i'r her ddemograffig y mae Conwy yn ei hwynebu;
- Nodi rhai mathau o ddatblygu sydd i'w hybu lle maent yn cydweddu â'r angen i liniaru achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd;
- Dileu paragraff a oedd yn canolbwyntio ar weithredu a chyflawni.

4.2.3 Mae Gweledigaeth arfaethedig y CDLI yn canolbwyntio ar lunio lleoedd fel modd i sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol ac mae bellach yn ymdrin yn fuddiol â'r cyfleoedd a'r heriau gofodol allweddol y mae Conwy yn eu hwynebu. Felly, fel datganiad lefel uchel, mae Gweledigaeth y CDLI yn debygol o helpu i roi mwy o bwyslais ar gyflawni strategaeth ofodol newydd a pholisïau seiliedig ar leoedd yn y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu nag y mae'r CDLI presennol a fabwysiadwyd. Byddai hyn yn hybu nodweddion unigryw lleol a'r gallu i gwrdd â gwahanol anghenion y cymunedau. Felly credir bod Gweledigaeth arfaethedig y CDLI yn cydweddu â sicrhau datblygu cynaliadwy. Yn ogystal â hyn, credir y bydd alinio Gweledigaeth y CDLI yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych (2018) a themâu Polisi Cynllunio Cymru – 10^{fed} Argraffiad (2018) yn galluogi'r CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu i gyfrannu at gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol ac i helpu i weithredu polisiau cynllunio cenedlaethol. Gan fod llesiant yn cael ei ddefnyddio fel llinyn trawsbynciol i rwymo'r holl Amcanion AG yn Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy, credir y bydd Gweledigaeth arfaethedig y CDLI yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at gyflawni'r Amcanion AG hyn.

Amcanion

4.2.4 Ar y cam blaenorol wrth baratoi'r cynllun, roedd yr AG y drafft gwreiddiol o Amcanion y CDLI wedi codi pryderon am eu ffocws thematig unigol ac am eu nifer. Heb eu datrys, byddai'r pryderon hyn yn gallu arwain at anawsterau wrth weithredu ac at wrthdaro anfwriadol rhwng polisiau a ddatblygir i ymdrin â phob Amcan thematig. Mewn ymateb, mae un o'r Amcanion gwreiddiol mwyaf aneglur a gynigiwyd cynt (yn ymwneud â dileu risgiau wrth ddatblygu) wedi'i ddileu, ond mae'r holl Amcanion gwreiddiol eraill wedi'u cario ymlaen a'u hailenwi'n Amcanion Strategol. Oherwydd hyn, mae'r arfarniad o Amcanion y CDLI wedi aros yn weddol debyg i hwnnw a gyflwynwyd o'r blaen yn Adroddiad yr AG Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau Twf CDLI Conwy (PBA, Rhagfyr 2018).

4.2.5 Mae Gweledigaeth arfaethedig y CDLI wedi'i hategu gan set o 15 o Amcanion sy'n dangos sut bydd y weledigaeth yn cael ei gwireddu. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn **Nhabl CA 4.1** isod.

Tabl CA 4.1: Amcanion Strategol Arfaethedig y CDLI

Enw'r Amcan Strategol	Geiriad yr Amcan Strategol
Cyfrannu at greu a gwella Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy drwy Lunio Lleoedd cynhwysol	
Amcan Strategol 1: Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy	Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a gwell llesiant yn gyffredinol yng Nghonwy drwy sicrhau llunio lleoedd cynhwysol ac adfywio sy'n sicrhau bod lefelau twf a datblygu yn y dyfodol yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ceisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, yn diogelu'r Gymraeg ac yn cael eu cynnal gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd sydd ei angen i greu lleoedd gwyh.
Lleoedd Egniol a Chymdeithasol yng Nghonwy	
Amcan Strategol 2: Tai	Hyrwyddo strategaeth gyfannol ar gyfer gydleoli twf cyflogaeth a thai drwy ddarparu cartrefi newydd, yn cynnwys cartrefi fforddiadwy a diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod yr amrywiaeth briodol o fathau, meintiau a deiliadaethau tai yn cael eu dwyn ymlaen ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol sydd ei angen.
Amcan Strategol 3: Canolfannau Manwerthu a Masnachol	Sicrhau canolfannau trefol a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw yng Nghonwy drwy ailddiffinio eu rôl a thrwy hybu amrywiaeth o weithgareddau a mathau o ddefnydd.
Amcan Strategol 4: Cyfleusterau Cymunedol	Cyfrannu at y nawws am le ac at iechyd, llesiant ac amwynder cyffredinol cymunedau lleol drwy sicrhau bod grwpiau poblogaeth y presennol a'r dyfodol yn cael mynediad at gymysgedd cynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.
Amcan Strategol 5: Mannau Hamdden	Hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol drwy ddarparu a diogelu manau gwyrdd hygyrch o ansawdd da a rhwydweithiau o fannau hamdden.
Amcan Strategol 6: Trafnidiaeth	Sicrhau datblygu cynaliadwy a cheisio mynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd drwy gynnig mwy o ddewis o dtrafnidiaeth gynaliadwy i alluogi cymunedau Conwy i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol drwy hyrwyddo'r defnydd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus dros bellteroedd llai ac mewn ffordd fwy egniol a thrwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd defnydd a dyluniad datblygiadau newydd.
Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yng Nghonwy	
Amcan Strategol 7: Datblygu Economaidd	Hyrwyddo ffyniant, arallgyfeirio ac adfywio economaidd hirdymor drwy fanteisio ar leoliad strategol Conwy yn ardal y fargen dwf ranbarthol a thrwy hybu strategaeth gyfannol ar gyfer cydleoli twf cyflogaeth a thai, a fydd yn hwyluso twf yn nifer y swyddi addas mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn cynnal rhwydweithiau a chlystyrau busnes, yn

Enw'r Amcan Strategol	Geiriad yr Amcan Strategol
	cynyddu sgiliau mewn cyflogaeth uchel ei gwerth ac yn darparu'r seilwaith newydd sydd ei angen, a fydd gyda'i gilydd yn galluogi busnesau newydd i leoli yng Nghonwy a busnesau presennol i dyfu.
Amcan Strategol 8: Twristiaeth	Hybu a chefnogi darparu twristiaeth gynaliadwy lle mae'n cyfrannu at ffyniant a datblygu economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, gan gydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau, cymunedau lleol a'r angen i ddiogelu amgylcheddau hanesyddol a naturiol.
Amcan Strategol 9: Yr Economi Wledig	Hybu a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ehangu busnesau presennol a mabwysiadu ymagwedd adeiladol at amaethyddiaeth a newid arferion ffermio.
Amcan Strategol 10: Ynni a Newid Hinsawdd:	Sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni, yn cynnwys hyrwyddo Morlyn Llanw, a fydd yn cynyddu'r buddion i economi a chymunedau Conwy gan leihau'r effeithiau dichonol ar yr amgylchedd a chymdeithas.
Amcan Strategol 11: Mwynau a Gwastraff	Cyfrannu at weithredu economi gylchol, gan reoli gwastraff drwy leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, yn cynnwys y rheini ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.
Lleoedd Naturiol ac Unigryw yng Nghonwy	
Amcan Strategol 12: Tirweddau ac Amgylcheddau Hanesyddol	Gwarchod a gwella asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol o ansawdd da yng Nghonwy.
Amcan Strategol 13: Ardaloedd yr Arfordir	Hybu cyfleoedd ar gyfer twf, adfywio a datblygu yn Ardaloedd yr Arfordir, gan fod yn ymwybodol ac ymatebol yr un pryd i'r heriau sy'n codi o bwysau naturiol.
Amcan Strategol 14: Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth	Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol cadarn.
Amcan Strategol 15: Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau	Lleihau'r cysylltiad â llygredd aer a sŵn, cydbwysu'r ddarpariaeth o ddatblygu a golau i wella diogelwch pobl ac eiddo, a diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn cynnwys maint ac ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.

Strategaeth Twf

A.1.2 Yn unol â gofynion statudol, mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn amlinellu strategaeth twf newydd i Gonwy ('y strategaeth newydd') dros gyfnod y CDLI Newydd hyd 2033. Mae'r strategaeth newydd hon a gyflwynwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn adeiladu ar sail y gwaith blaenorol o ddatblygu cyfres o opsiynau twf gwrthgyferbyniol (opsiynau lefel twf, opsiynau dosbarthiad gofodol ac opsiynau hierarchaeth aneddiadau). Ymgynghorwyd ar yr opsiynau hyn, y gellir eu hystyried yn ddewisiadau rhesymol i ddibenion yr AG hwn (yn cynnwys AAS) ac roeddent yn destun AG manwl ar y cam blaenorol wrth baratoi'r cynllun, fel yr adroddwyd yn Adroddiad yr AG y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau yn CDLI Conwy (PBA, 2018).

Lefel Twf

A.1.3 Mae'r Lefel Twf a ffefrir a nodwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn galw am ddatblygu 5,150 net o anheddau ychwanegol a 1,800 o swyddi newydd dros gyfnod y CDLI 2018-2033. Mae'r strategaeth hon ar gyfer twf ar sail cyflogaeth yn debyg iawn i Opsiwn Twf 4 a nodwyd o'r blaen ym Mhapur Ymgynghori 2 ac a aseswyd yn Atodiad E i Adroddiad yr AG ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau yn CDLI Conwy (PBA, 2018). Mae'r prif ganfyddiadau o'r AG Opsiwn Twf 4 yn dangos y byddai'r Lefel Twf a ffefrir:

- yn perfformio cystal neu'n well nag unrhyw opsiwn arall a nodwyd o ran cyfrannu at gyflawni Amcanion AG economaidd-gymdeithasol. Y rheswm am hyn oedd, am ei fod yn opsiwn cysylltiedig â pholisi, ei fod wedi'i seilio'n gadarn ar y sylfaen dystiolaeth ar dai a'r economi, yn cynnwys Bargen Twf y Gogledd;
- yn perfformio cystal neu'n well nag unrhyw opsiwn arall a nodwyd o ran ei gyfraniad canfyddadwy at gyflawni Amcanion AG amgylcheddol, gan nad oedd unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd yn debygol o ddigwydd.

Dosbarthiad Gofodol

A.1.4 Mae'r Strategaeth Dosbarthiad Gofodol sydd wedi'i hamlinellu yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn rhannu ardal CDLI Conwy yn ddau barth, yr Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol (ASDA) a'r Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (ASDG), ac mae 90% o'r twf dros gyfnod y CDLI wedi'i gyfeirio i'r ASDA. Gan adeiladu ar sail dadansoddiad blaenorol o'r opsiynau twf, mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn egluro mai'r strategaeth sy'n canoli twf yn yr ASDA ac mewn Ardaloedd Strategol hygyrch iawn oddi mewn iddi sy'n cynnig y cyfle gorau i gwrdd ag anghenion poblogaeth a bennwyd (yn cynnwys yr angen tai lleol), hyrwyddo teithio llesol, creu cymunedau iachach, gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, defnyddio seilwaith presennol ac integreiddio twf newydd ag ardaloedd cyflogaeth presennol. Ar yr un pryd, mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI yn nodi'r angen i gynnal economi wledig gryf, cwrdd ag anghenion cymunedol a bennwyd mewn aneddiadau gwledig presennol a hybu arallgyfeirio economaidd yn yr ASDG, gan gydnabod y goblygiadau negyddol i gynaliadwyedd o ganlyniad i'r ddibyniaeth ar geir a cholli tir maes glas.

A.1.5 Felly mae'n glir bod y cynnig i ganoli twf mewn canolfannau cyflogaeth presennol gan gefnogi datblygu i gwrdd ag anghenion economaidd-gymdeithasol a bennwyd ledled ardal CDLI Conwy yn strategaeth gynaliadwy ar gyfer defnyddio tir. Mae'r angen a nodwyd i ymateb i gyfyngiadau oherwydd perygl o lifogydd drwy gyfyngu twf yn rhan ddwyreiniol yr ASDA gan roi blaenoriaeth i dwf yn y rhan ganolog i gwrdd â galwadau presennol yn dangos ymhellach y bydd y strategaeth ofodol a'r dosbarthiad twf arfaethedig yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

4.3 AG y Safleoedd Strategol

- 4.3.1 Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae CBSC yn cynnal proses asesu a dewis safleoedd integredig ar gyfer y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu. Mae'r fethodoleg yn gyson â'r dull a amlinellwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r AG yr Adolygiad o CDLI Conwy (Awst 2018).
- 4.3.2 Barnwyd ei bod yn ddichonol bod pob un o'r 35 o safleoedd strategol a gyflwynwyd yn ystod yr Alwad am Safleoedd yn yr Adolygiad o CDLI Conwy (Awst 2018) yn ddewisiadau eraill rhesymol, yn amodol ar y gallu i'w darparu ac absenoldeb cyfyngiadau amgylcheddol mawr. Fel yr adroddwyd yn Papur Cefndir 6 – Darparu Safleoedd Strategol, mae CBSC wedi nodi 5 safle strategol yn Safleoedd Strategol Allweddol a fydd yn sail i Strategaeth a Ffefrir y CDLI, a barnwyd nad oedd y safleoedd strategol ymgeisiol eraill yn ddewisiadau rhesymol ar hyn o bryd. Dim ond safleoedd strategol sydd wedi'u hystyried ar yr adeg hon, gan y bydd yr holl safleoedd anstrategol eraill rhesymol yn cael eu hasesu ar gam Adneuo'r CDLI.
- 4.3.3 Roedd yr asesiadau o safleoedd strategol a gofnodwyd yn Papur Cefndir 6 – Darparu Safleoedd Strategol wedi mabwysiadu'r dull fesul cam a ganlyn:
- Dadansoddiad o'r Gallu i'w Darparu – mae Tabl 2 yn enwi safleoedd strategol ymgeisiol lle mae cyfyngiad ar y gallu i'w darparu. Gan nad yw gwybodaeth ddigonol wedi'i darparu am y gallu i'w darparu, nid yw'r safleoedd hyn yn ddewisiadau eraill rhesymol ac felly nid oes angen eu hystyried ymhellach ar hyn o bryd;
 - Didoli Cychwynnol – cynhaliwyd dadansoddiad cychwynnol ar sail y meini prawf ansawdd ar y Safleoedd Strategol a oedd wedi'u derbyn yng nghanam 1 i ddioli unrhyw safleoedd lle'r oedd cyfyngiadau amgylcheddol mawr a fyddai'n debygol o atal eu datblygu;
 - AG Manwl – Dim ond y pum safle strategol a lwyddodd yn y cam didoli cyntaf sy'n ddewisiadau eraill rhesymol ar yr adeg hon. Fel y nodwyd yn Nhabl 1 yn Papur Cefndir 6 – Darparu Safleoedd Strategol, cynhaliwyd AG manwl o'r safleoedd hyn gan ddefnyddio'r set o ddangosyddion cynaliadwyedd sydd wedi'u rhestru ar gyfer pob Amcan AG yn Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy, sydd wedi'u disgrifio'n llawn yn Atodiad C i brif adroddiad yr AG. Roedd y dull hwn yn rhoi sylw manwl i faterion cynaliadwyedd allweddol (gweler Adran 3.2 o brif adroddiad yr AG) a sylw da i'r holl bynciau amgylcheddol a ragnodwyd yn y Rheoliadau AAS, gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion craidd yr AG a'r AAS. Roedd yr holl ddyraniadau arfaethedig o safleoedd strategol a aseswyd wedi cael sgôr dda o dan Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy ac ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol ar yr adeg hon. Er hynny, oherwydd natur strategol y safleoedd hyn, bydd angen rheoli cyfnodau datblygu a'r dull o ddarparu pob safle yn fanwl ac mae CBSC yn bwriadu paratoi briffiau i ddatblygwyr neu ganllawiau eraill i ategu hyn.
- 4.3.4 Fel y nodwyd uchod, er gwaethaf y penderfyniad i beidio â dynodi rhai safleoedd ymgeisiol a gafodd sgôr uwch na'r trothwy ar gyfer safleoedd strategol, yn safleoedd strategol eraill rhesymol, os darperir rhagor o wybodaeth am y gallu i'w darparu ac am effeithiau ar yr amgylchedd, gellir ailystyried y safleoedd hyn ar gam Adneuo'r CDLI (fel safleoedd strategol neu anstrategol ymgeisiol). Gwneir asesiad trylwyr a thryloyw o'r holl ddyraniadau arfaethedig a dewisiadau eraill rhesymol (h.y. yr holl safleoedd ymgeisiol nad yw'n rhesymol eu diystyried) ar gyfer Dogfen Adneuo CDLI Conwy.

4.4 AG y Polisiâu Strategol

Trosolwg

- 4.4.1 Mae'r adran hon yn darparu asesiad byr o'r polisiâu strategol arfaethedig ar sail yr Amcanion AG. Mae arfarniad manwl o'r effeithiau a ragwelir o'r polisiâu strategol wedi'i ddarparu yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG. Cynhaliwyd yr asesiad drwy grwpio polisiâu fel eu bod yn cyfateb i bob pennod o bolisiâu strategol sydd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI. Drwy wneud hyn, roedd

modd cynnal asesiad cymesur o bob polisi ac o effeithiau cronol pob grŵp o bolisiau, gan ganolbwyntio ar y materion cynaliadwyedd sy'n fwyaf perthnasol i'r polisi neu bolisiau a asesir.

Amcan AG 1 – Iechyd a Llesiant

4.4.2 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP6 – Polisi Strategol 6 (SP/6) Hyrwyddo Lleoedd Iachach yng Nghonwy
- SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
- SP14 - Polisi Strategol 14 (SP/14) Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd
- SP15 - Polisi Strategol 15 (SP/15): Tai
- SP19 - Polisi Strategol 19 (SP/19): Tirwedd
- SP24 - Polisi Strategol 24 (SP/24): Bioamrywiaeth
- SP30 - Polisi Strategol 30 (SP/30): Seilwaith Trafnidiaeth;

4.4.3 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Gwellu canlyniadau iechyd drwy sicrhau darpariaeth ddigonol o seilwaith cymdeithasol a chymunedol;
- Rhoi blaenoriaeth i adfer ac ailddatblygu tir llwyd;
- Cynyddu hygyrchedd datblygiadau mawr a rhai sy'n denu nifer mawr o bobl;
- Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ddulliau teithio llesol;
- Helpu i gydleoli twf tai a chyflogaeth;
- Cydnabod y pwysigrwydd o warchod y dirwedd er mwyn iechyd a llesiant corfforol a meddyliol;
- Lleihau llygredd, delio â risgiau amgylcheddol a chryfhau ecosystemau.

4.4.4 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 2 – Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol

4.4.5 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
- SP22 - Polisi Strategol 22 (SP/22): Adfywio seiliedig ar Ddiwylliant

- SP23 - Polisi Strategol 23 (SP/23): Seilwaith Gwyrdd
- 4.4.6 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:
- Darparu seilwaith cymdeithasol a chymunedol digonol i gwrdd ag anghenion cymunedau'r presennol a'r dyfodol;
 - Hybu datblygu ac adfywio economaidd seiliedig ar ddiwylliant;
 - Cynyddu hygyrchedd datblygiadau mawr a rhai sy'n denu nifer mawr o bobl;
 - Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ddulliau teithio llesol;
 - Helpu i gydleoli twf tai a chyflogaeth;
- 4.4.7 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar Amcan AG 1. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 3 – Cyflogaeth a Sgiliau

- 4.4.8 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:
- SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
 - SP22 - Polisi Strategol 22 (SP/22): Adfywio seiliedig ar Ddiwylliant
 - SP27 - Polisi Strategol 27 (SP/27): Datblygu Economaidd
 - SP28 - Polisi Strategol 28 (SP/28): Twristiaeth
 - SP29 - Polisi Strategol 29 (SP/29): Yr Economi Wledig
 - SP31 - Polisi Strategol 31 (SP/31): Telathrebu a Chlystyrau Busnes
- 4.4.9 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:
- Cyfeirio datblygu sy'n creu cyflogaeth at leoliadau hygyrch a phriodol;
 - Pennu strategaeth tir cyflogaeth i gwrdd ag anghenion cyflogaeth a ragwelwyd;
 - Cydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth a darparu cymorth i ddatblygu twristiaeth mewn lleoliadau priodol;
 - Cefnogi cyflogaeth wledig a chymell arallgyfeirio yn yr economi wledig;
 - Rhoi cymorth at welliannau i rwydweithiau cyfathrebu a fydd yn sicrhau buddion economaidd a chymunedol.
- 4.4.10 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif

adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 4 – Trafnidiaeth a Chyfathrebu:

4.4.11 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP5 - Polisi Strategol 5 (SP/5): Llunio Lleoedd a Dylunio Da
- SP6 - Polisi Strategol 6 (SP/6) Hyrwyddo Lleoedd Iachach yng Nghonwy
- SP11 - Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol
- SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
- SP14 - Polisi Strategol 14 (SP/14) Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd
- SP23 - Polisi Strategol 23 (SP/23): Seilwaith Gwyrdd
- SP30 - Polisi Strategol 30 (SP/30): Seilwaith Trafnidiaeth
- SP31 - Polisi Strategol 31 (SP/31): Telathrebu a Chlystyrau Busnes

4.4.12 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Darparu seilwaith trafndiaeth digonol i gwrdd ag anghenion cymunedol a bennwyd a chynnal twf o ran tai a'r economi;
- Hyrwyddo newid moddol cynaliadwy, yn cynnwys drwy osod hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy;
- Gwella hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau allweddol, amwynderau, hamdden a chyflogaeth;
- Hyrwyddo teithio llesol drwy wella'r seilwaith gwyrdd;
- Gwella hygyrchedd digidol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd gwledig lle mae hygyrchedd ffisegol yn gyfyngedig.

4.4.13 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 5 – Tai

4.4.14 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP9 - Polisi Strategol 9 (SP/9): Llunio Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig

- SP11 - Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol
- SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
- SP13 - Polisi Strategol 13 (SP/13): Rheoli Ffurf Aneddiadau
- SP14 - Polisi Strategol 14 (SP/14) Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd
- SP15 - Polisi Strategol 15 (SP/15): Tai
- SP22 - Polisi Strategol 22 (SP/22): Adfywio seiliedig ar Ddiwylliant

4.4.15 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Diffinio a chyflawni strategaeth tir ar gyfer tai i gwrdd ag anghenion tai a bennwyd a hybu twf economaidd;
- Darparu seilwaith digonol i gynnal twf tai;
- Cyfeirio datblygiadau tai at leoliadau cynaliadwy a hygyrch;
- Rheoli twf aneddiadau yn y tymor hir i osgoi blerdwf.

4.4.16 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn **Atodiad E**, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 6 – Twf Economaidd

4.4.17 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP9 - Polisi Strategol 9 (SP/9): Llunio Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig
- SP11 - Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol
- SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
- SP14 - Polisi Strategol 14 (SP/14) Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd
- SP15 - Polisi Strategol 15 (SP/15): Tai
- SP27 - Polisi Strategol 27 (SP/27): Datblygu Economaidd
- SP28 - Polisi Strategol 28 (SP/28): Twristiaeth
- SP29 - Polisi Strategol 29 (SP/29): Yr Economi Wledig
- SP31 - Polisi Strategol 31 (SP/31): Telathrebu a Chlystyrau Busnes
- SP32 - Polisi Strategol 32 (SP/32): Ynni
- SP33 - Polisi Strategol 33 (SP/33): Mwynau

- SP34 - Polisi Strategol 34 (SP/34): Gwastraff
- 4.4.18 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:
- Helpu i ddarparu seilwaith newydd a gwell i ddatgloi twf economaidd a buddsoddi;
 - Hyrwyddo datblygu ac adfywio economaidd seiliedig ar ddiwylliant;
 - Gosod strategaeth tir cyflogaeth i gynnal twf economaidd;
 - Cefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig;
 - Rhoi blaenoriaeth i dwf o ran tai a chyflogaeth ar safleoedd strategol;
 - Rhoi cymorth i dyfu sectorau sy'n bwysig ar lefel leol a rhanbarthol.
- 4.4.19 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn **Atodiad E**, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 7 – Ansawdd Aer

- 4.4.20 Fel y nodwyd yn **Atodiad E** i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:
- SP8 - Polisi Strategol 8 (SP/8): Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
 - SP25 - Polisi Strategol 25 (SP/25): Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau
 - SP33 - Polisi Strategol 33 (SP/33): Mwynau
- 4.4.21 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:
- Canolbwyntio ar gynaliadwyedd economaidd;
 - Lleihau'r cysylltiad ag aer o ansawdd gwael;
 - Diogelu a gwella ansawdd aer;
 - Diogelu amwynder preswyl a chymunedol.
- 4.4.22 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 8 – Y Newid yn yr Hinsawdd

- 4.4.23 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP8 - Polisi Strategol 8 (SP/8): Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- SP14 - Polisi Strategol 14 (SP/14) Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd
- SP24 - Polisi Strategol 24 (SP/24): Bioamrywiaeth
- SP25 - Polisi Strategol 25 (SP/25): Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau
- SP26 - Polisi Strategol 26 (SP/26): Llifogydd
- SP32 - Polisi Strategol 32 (SP/32): Ynni

4.4.24 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Hyrwyddo newidiadau moddol cynaliadwy a lleihau dibyniaeth ar geir;
- Cryfhau ecosystemau a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd;
- Atal llygredd a diogelu ansawdd amgylcheddol;
- Ystyried a delio â goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd i'r perygl o lifogydd;
- Cefnogi'r defnydd o dechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn lleoliadau priodol.

4.4.25 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 9 – Bioamrywiaeth

4.4.26 Fel y nodwyd yn **Atodiad E**, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP8 - Polisi Strategol 8 (SP/8): Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- SP17 - Polisi Strategol 17 (SP/17): Cyfleusterau Cymunedol
- SP18 - Polisi Strategol 18 (SP/18): Mannau Hamdden
- SP19 - Polisi Strategol 19 (SP/19): Tirwedd
- SP23 - Polisi Strategol 23 (SP/23): Seilwaith Gwyrdd
- SP24 - Polisi Strategol 24 (SP/24): Bioamrywiaeth

4.4.27 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Lleihau colledion bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau;
- Lleihau llygredd o'r holl ffynonellau;

- Cadw, diogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd ar lefel leol neu genedlaethol oherwydd eu pwysigrwydd ecolegol neu er mwyn gwarchod bioamrywiaeth;
- Diogelu ardaloedd gwerthfawr o ran eu tirwedd a thrwy hynny yn anuniongyrchol ddiogelu eu nodweddion ecolegol;
- Diogelu a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd.

4.4.28 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn am na roddwyd sylw i faterion perthnasol.

Amcan AG 10 – Dŵr a Pherygl o Lifogydd

4.4.29 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP23 - Polisi Strategol 23 (SP/23): Seilwaith Gwyrdd
- SP24 - Polisi Strategol 24 (SP/24): Bioamrywiaeth
- SP25 - Polisi Strategol 25 (SP/25): Dŵr, Aer, Seinwedd a Golau
- SP26 - Polisi Strategol 26 (SP/26): Llifogydd

4.4.30 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Diogelu a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd.
- Cryfhau ecosystemau;
- Diogelu a gwella ansawdd a maint dŵr wyneb a dŵr daear;
- Hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar y perygl o lifogydd a mwy o amddiffyniad rhag y perygl o lifogydd.

4.4.31 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 11 – Deunyddiau a Gwastraff

4.4.32 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP32 - Polisi Strategol 32 (SP/32): Ynni
- SP33 - Polisi Strategol 33 (SP/33): Mwynau

- SP34 - Polisi Strategol 34 (SP/34): Gwastraff
- 4.4.33 Er nad yw'r polisiâu strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:
- Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, storio ynni ac ynni adnewyddadwy gan sicrhau cymysgedd o ffynonellau ynni i gwrdd ag anghenion a bennwyd.
 - Cydnabod yr angen i reoli adnoddau mwynol mewn ffordd gynaliadwy i gwrdd ag anghenion economaidd;
 - Cymhwyso'r hierarchaeth gwastraff a hybu twf yr economi gylchol.
- 4.4.34 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiâu strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiâu strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiâu strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 12 – Llunio Lleoedd Cynaliadwy

- 4.4.35 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiâu strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:
- SP5 - Polisi Strategol 5 (SP/5): Llunio Lleoedd a Dylunio Da
 - SP6 - Polisi Strategol 6 (SP/6) Hyrwyddo Lleoedd Iachach yng Nghonwy
 - SP11 - Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol
 - SP12 - Polisi Strategol 12 (SP/12): Seilwaith a Datblygu Newydd
 - SP15 - Polisi Strategol 15 (SP/15): Tai
 - SP19 - Polisi Strategol 19 (SP/19): Tirwedd
 - SP22 - Polisi Strategol 22 (SP/22): Adfywio seiliedig ar Ddiwylliant
- 4.4.36 Er nad yw'r polisiâu strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:
- Mabwysiadu dull llunio lleoedd ar gyfer lleoli a dylunio'r holl gynigion ar gyfer datblygu;
 - Cydnabod y buddion i iechyd o lunio lleoedd da;
 - Dod â datblygu o ansawdd da ymlaen ar 5 Safle Strategol Allweddol drwy ddatblygu a chymhwyso egwyddorion dylunio a briffiau datblygu yn y dyfodol;
 - Cefnogi ystyriaeth gynnar i'r seilwaith sydd ei angen i ddatgloi potensial datblygu a chwrdd ag anghenion a bennwyd;
 - Cefnogi cydleoli twf tai a chyflogaeth;
 - Diogelu, rheoli a gwella priodweddau arbennig tirweddau;
 - Hybu hunaniaeth lleoedd;

- Hyrwyddo camau i ddiogelu a gwella asedau diwylliannol.

4.4.37 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 13 – Treftadaeth Ddiwylliannol

4.4.38 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP19 - Polisi Strategol 19 (SP/19): Tirwedd
- SP21 - Polisi Strategol 21 (SP/21): Yr Amgylchedd Hanesyddol
- SP22 - Polisi Strategol 22 (SP/22): Adfywio seiliedig ar Ddiwylliant

4.4.39 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Diogelu, rheoli a gwella asedau treftadaeth dynodedig;
- Diogelu tirweddau gwerthfawr y mae'r amgylchedd hanesyddol, asedau treftadaeth a'u lleoliad yn rhan allweddol ohonynt;
- Hyrwyddo adfywio drwy fentrau treftadaeth treflun.

4.4.40 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

Amcan AG 14 – Tirwedd

4.4.41 Fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, rhagwelir y bydd y polisiau strategol arfaethedig canlynol yn cael effeithiau Cadarnhaol Mawr (h.y. llesol arwyddocaol) ar agweddau ar yr Amcan AG hwn:

- SP13 - Polisi Strategol 13 (SP/13): Rheoli Ffurff Aneddiadau
- SP19 - Polisi Strategol 19 (SP/19): Tirwedd
- SP20 - Polisi Strategol 20 (SP/20): Ardaloedd Arfordirol a Chynlluniau Morol
- SP21 - Polisi Strategol 21 (SP/21): Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.4.42 Er nad yw'r polisiau strategol hyn ar lefel lle maent yn pennu meini prawf manwl, maent yn darparu fframwaith polisi lefel uchel cefnogol ar gyfer:

- Diogelu tirweddau gwerthfawr a phriodweddau arbennig yng nghymeriad y dirwedd;
- Rheoli twf aneddiadau yn y tymor hir i atal ymglyfuno a blerdwf.

- 4.4.43 Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd yr un o'r polisiau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar yr Amcan AG hwn. Er hynny, fel y nodwyd yn Atodiad E i'r prif adroddiad AG, nodwyd nifer o wahanol elfennau ansicr a phroblemau sy'n cyfyngu ar hyn o bryd ar gyfraniad rhai o'r polisiau strategol a aseswyd at gyflawni'r Amcan AG hwn. Mae nifer o bolisiau strategol eraill sydd heb berthynas glir â'r Amcan AG hwn.

5 Argymhellion ar gyfer Lliniaru a Gwella

5.1 Trosolwg

- 5.1.1 Mae nodi unrhyw ragdybiaethau a ffactorau ansicr yn elfen bwysig mewn AG, gan fod angen i holl gydrannau'r CDLI Newydd fod yn ddiamwys er mwyn sicrhau bod modd eu gweithredu yn unol â'r bwriad. Yn ogystal â hyn, mae'r Rheoliadau AAS yn galw am ystyried "*the measures envisaged to prevent, reduce and as fully as possible offset any significant adverse effects on the environment of implementing the plan or programme*". Felly un o ddibenion allweddol y broses AG, yn cynnwys yr AAS, yw llunio argymhellion priodol ar gyfer lliniaru a gwella er mwyn delio â ffactorau ansicr a nodwyd, datrys diffygion a chryfhau perfformiad y cynllun neu raglen a asesir o ran cynaliadwyedd.
- 5.1.2 Aseswyd pob un o gydrannau neu gynigion y CDLI yn y Papurau Ymgynghori Cyn Adneuo ar sail cyn lliniaru er mwyn gallu adnabod unrhyw elfennau amwys a gwendidau eraill. Mae hyn wedi galluogi tîm yr ymgynghorwyr annibynnol sy'n cynnal yr AG i ddatblygu argymhellion priodol ar gyfer lliniaru a gwella, sydd wedi'u disgrifio isod.

5.2 Argymhellion ar Fframwaith Strategol y CDLI

- 5.2.1 Mae'r is-adran hon yn cynnwys cyfres o argymhellion i wella eglurder ac effeithiolrwydd yr elfennau yn fframwaith strategol y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu, sef Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Strategaeth Twf y CDLI.
- 5.2.2 Yn ogystal ag argymhellion ynghylch pob elfen (sydd wedi'u disgrifio isod), nodwyd nifer o gyfleoedd drwy broses yr AG i wella cydlyniant cyffredinol a gwerth y Weledigaeth, yr Amcanion Strategol a'r Strategaeth Twf yn y CDLI drwy rywfaint o ailstrwythuro. Trafodir y rhain yn **Adran 6** o'r prif adroddiad AG.

Argymhellion ar Weledigaeth y CDLI

- 5.2.3 Mae Gweledigaeth arfaethedig y CDLI wedi'i haddasu eisoes i ystyried argymhellion blaenorol ac mae bellach yn ceisio ymdrin yn gliriach â'r prif heriau a chyfleoedd gofodol y mae Conwy yn eu hwynebu. Credir nad oes angen addasiadau pellach.

Argymhellion ar Amcanion Strategol y CDLI

- 5.2.4 Mae'r AG yr Amcanion Strategol arfaethedig yn y CDLI (Atodiad D i'r prif adroddiad AG) yn dod i'r casgliad bod y cydrannau hyn yn cydweddu gan mwyaf â'r angen i sicrhau canlyniadau cynaliadwyedd llesol ac mewn nifer o achosion roedd eu geiriad yn cyfateb yn agos i'r Amcanion AG a ddiffiniwyd yn Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy (**Atodiad A**). Fodd bynnag, oherwydd ffocws thematig unigol yr Amcanion Strategol arfaethedig a'u nifer (15), nid ydynt yn cyfleu'n gryno i ba gyfeiriad yn union y mae CDLI Newydd Conwy yn mynd iddo a gall fod yn anodd delio â materion cynaliadwyedd trawsbynciol.
- 5.2.5 Er mwyn delio â'r materion a nodwyd a gwella'r CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu o ran ei effeithiolrwydd a chynaliadwyedd, rydym yn argymhell y dylai CBSC geisio rhesymoli rhai Amcanion Strategol. Drwy ddarparu set glir ac ymarferol o flaenoriaethau gwirioneddol strategol, gellir helpu i lywio holl gydrannau sylweddol eraill y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu a lleihau tensiynau rhwng polisïau. Er mwyn sicrhau bod yr holl faterion cynaliadwyedd a chynllunio perthnasol yn parhau'n rhan o fframwaith strategol y CDLI, gellid troi elfennau thematig unigol yn yr Amcanion Strategol arfaethedig yn 'ganlyniadau' o dan set resymedig o Amcanion CDLI ehangach.

- 5.2.6 Dylai CBSC hefyd geisio gwella tôn bellweledol yr holl Amcanion Strategol (AS) a'u gwneud yn fwy eglur. Yn benodol:
- i. Er mwyn bod yn gryno, rydym yn argymhell aileirio AS1 i ganolbwyntio'n llwyr ar sicrhau/creu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant, gan fod y ddau derm hyn yn cynnwys nifer o'r agweddau dylunio, iechyd a chymdeithasol y mae'r amcan presennol yn cyfeirio atynt;
 - ii. O ganlyniad i'r newid hwn, mae'n bosibl y bydd angen symud diogelu'r Gymraeg o AS1 i AS perthnasol arall lle mae'n briodol ei gadw, e.e. AS12;
 - iii. Er mwyn bod yn gryno, gellid rhesymoli AS4 ac AS5;
 - iv. Gellid cryfhau'r gefnogaeth i newid moddol yn AS6, a gellid byrhau'r geiriau sydd ynddo am deithio llesol er mwyn bod yn gryno;
 - v. Mae lle i wella geiriad AS9 i'w gwneud yn fwy eglur, yn enwedig mewn perthynas â'r strategaeth ar gyfer tai gwledig a rheoli newidiadau mewn arferion amaethyddol;
 - vi. Dylid ailystyried y manteision o hyrwyddo morlyn llanw penodol drwy Amcan Strategol yn y CDLI, gan mai pwrpas Amcanion Strategol yw cyfleu canlyniadau gofodol arfaethedig (e.e. cynhyrchu ynni, lliniaru effeithiau newid hinsawdd, atal llifogydd, etc) yn hytrach na diffinio strategaeth ymlaen llaw i'w cyflawni.

Argymhellion ar y Strategaeth Twf

- 5.2.7 Mae AG y Strategaeth Twf arfaethedig (**Adran 5.2** ac **Atodiad D**) yn dangos bod y lefelau twf arfaethedig (tai a chyflogaeth) a'r strategaeth dosbarthiad gofodol yn briodol ac yn debygol o helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy. Er hynny, mae angen o hyd i bennu ac ymdrin â'r effeithiau tebygol ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd o ddatblygu safleoedd penodol sy'n rhan o'r strategaeth twf ehangach.
- 5.2.8 Y prif fesur i osgoi a lliniaru effeithiau niweidiol a gwella perfformiad cynaliadwyedd y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu fydd mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth o ddatblygu strategaethau is-ardaloedd a dewis safleoedd priodol i'w dyrannu, e.e. drwy leihau twf mewn ardaloedd sydd o werth uchel hysbys o ran cadwraeth, dyrannu safleoedd sydd â mynediad da at nifer o wasanaethau, swyddi a chyfleusterau o fewn pellter cerdded neu drwy gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus uniongyrchol, osgoi ardaloedd sy'n sensitif iawn o ran tirwedd, etc. Mae'n bwysig bod AG y safleoedd ymgeisiol sy'n cael ei gynnal gan CBSC hefyd yn rhoi'r gallu i bennu egwyddorion dylunio priodol ar lefel polisi a safleoedd penodol i helpu i lliniaru'r effeithiau dichonol o'r safleoedd a ddyrennir.

5.3 Argymhellion ar y Mecanwaith Gweithredu

Argymhellion ar Safleoedd Strategol

- 5.3.1 Fel y nodwyd yn **Adran 4.3**, ar hyn o bryd dim ond safleoedd ymgeisiol y mae CBSC wedi nodi eu bod yn strategol (oherwydd maint y safle) a heb gyfyngiadau amgylcheddol mawr arnynt ar gyfer eu darparu sydd wedi'u nodi'n safleoedd strategol eraill y mae'n rhesymol eu dyrannu. Mae pum Safle Strategol Allweddol wedi'u henwi yn Strategaeth a Ffeirir y CDLI.
- 5.3.2 Er bod rhai safleoedd ymgeisiol sy'n uwch na'r trothwy ar gyfer safleoedd strategol sydd heb gael eu pennu'n safleoedd strategol eraill rhesymol, os darperir rhagor o wybodaeth ynghylch yr amgylchedd a'r gallu i'w darparu, fe ellir ailystyried y safleoedd hyn ar gam Adneuo'r CDLI (yn safleoedd strategol neu anstrategol ymgeisiol). Bydd angen gwneud asesiad trylwyr a thryloyw o'r holl ddyraniadau arfaethedig a dewisiadau eraill rhesymol (h.y. yr holl safleoedd ymgeisiol nad yw'n rhesymol eu diystyried) bryd hynny.

- 5.3.3 Wrth asesu safleoedd ar gam Adneuo'r CDLI, dylid cymhwyso'r dangosyddion cynaliadwyedd sydd wedi'u rhestru yn Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy (**Atodiad A**) a dyfeisio trothwyon a meini prawf sgorio priodol fel y gellir adnabod effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd. Lle rhagwelir effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol o ddyraniadau safle arfaethedig, bydd angen datblygu opsiynau lliniaru priodol (e.e. egwyddorion dylunio ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd, gofynion ychwanegol am asesu effeithiau, meini prawf polisi ychwanegol, etc.) a'u cynnwys yn Nogfen Adneuo'r CDLI.

Argymhellion ar Bolisiau Strategol

- 5.3.4 Drwy gynnal AG y polisiau strategol arfaethedig, nodwyd nifer o argymhellion ar gyfer mesurau lliniaru a gwella er mwyn eu gwneud yn fwy eglur ac effeithiol a gwella eu perfformiad amgylcheddol. Mae'r argymhellion hyn, sydd wedi'u dangos yn llawn yn **Adran 6** o'r prif adroddiad AG, yn ymwneud yn gyffredinol â'r canlynol:
- Datblygu polisiau ychwanegol i roi sylw i faterion allweddol sydd heb eu trafod yn llawn yn y polisiau strategol arfaethedig neu er mwyn lliniaru effeithiau penodol a ragwelwyd;
 - Addasu neu ychwanegu at eiriad polisiau er mwyn sicrhau bod modd gweithredu polisiau fel y bwriadwyd ac ymdrin â materion perthnasol yn effeithiol; neu
 - Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut mae eu cais am ddatblygu yn ymdrin â materion allweddol o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd, boed drwy bolisiau penodol neu ddyraniadau safle-benodol.

5.4 Y Camau Nesaf

- 5.4.1 Mae'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn ('yr Adroddiad AG') wedi cofnodi canfyddiadau'r AG a gynhaliwyd mewn perthynas â'r holl gydrannau sylweddol yn Nogfennau Cyn Adneuo CDLI Conwy, h.y. Strategaeth a Ffebrir y CDLI a Phapurau Cefndir cysylltiedig.
- 5.4.2 Yn dilyn ymgynghori ar Ddogfennau Cyn Adneuo'r CDLI a'r Adroddiad AG cysylltiedig, adolygir yr holl ymatebion a geir i'r ymgynghoriad a'u hystyried wrth lunio Dogfen Adneuo CDLI Conwy, h.y. y CDLI Newydd llawn arfaethedig. Bydd hyn yn adeiladu ar sail Strategaeth a Ffebrir y CDLI i ddisgrifio holl elfennau'r fframwaith strategol, y polisiau a'r dyraniadau safle a gynigiwyd i'w cynnwys yn CDLI Newydd Conwy. Bydd yr Adroddiad AG yn cael ei ddiweddarau a'i helaethu i'w gyflwyno gyda Dogfen Adneuo CDLI Conwy, a'r disgwyl yw y bydd ymgynghoriad ar y ddwy ddogfen ar y cyd yn Ionawr 2020. Yn dilyn Archwiliad Cyhoeddus a gynhelir wedyn, mae CBSC yn bwriadu mabwysiadu CDLI Newydd terfynol Conwy cyn i gyfnod CDLI presennol Conwy ddod i ben yn 2022.

Atodiad A: Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy

- A.1.6 Mae **Tabl A1.1** isod yn dangos yn llawn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) sy'n sail i'r AG hwn o'r CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu. Diweddarwyd y Fframwaith AG i ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar Gwmpasu AG yr Adolygiad o CDLI Conwy (Awst 2018).

Tabl A1.1: Fframwaith AG yr Adolygiad o CDLI Conwy

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
<p>1) Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, yn cynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn diogelu ac yn gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd? • Yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y cymunedau? • Yn hwyluso neu'n sbarduno teithio llesol neu hamdden corfforol? • Yn gwella hygyrchedd ac ansawdd y ddarpariaeth o fannau agored? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at gyfleusterau gofal iechyd a'u capasiti. • Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol presennol • Agosrwydd at y ddarpariaeth bresennol o fannau agored. • Bwriad i ddarparu cyfleusterau gofal iechyd newydd neu well, rhwydweithiau teithio llesol neu fannau agored o fewn safleoedd ymgeisiol.
<p>2) Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol, yn cynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn hyrwyddo diwylliant o gydraddoldeb, tegwch a pharch at bobl a'r amgylchedd? • Yn lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol? • Yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio? • Yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng grwpiau poblogaeth? • Yn darparu mynediad at weithgareddau diwylliannol fforddiadwy? • Yn lleihau tlodi tanwydd? • Yn diogelu ac yn gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol o ansawdd da? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at gyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol presennol. • Bwriad i ddarparu cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus neu amwynderau allweddol newydd neu well o fewn safleoedd ymgeisiol.
<p>3) Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth i gwrdd ag anghenion a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gwella mynediad at gyflogaeth, yn enwedig i bobl leol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Capasiti cyflogaeth y safle.

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
<p>bennwyd, gan wella lefel y cyrhaeddiad addysgol a'r sgiliau ymysg preswylwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cynyddu ac yn amrywio cyfleoedd cyflogaeth? • Yn gwella cyfleoedd i gael addysg a dysgu gydol oes? • Yn gwella cyrhaeddiad addysgol a lefel sgiliau, yn enwedig yn y boblogaeth o oed gweithio? • Yn ffafriol i dwf sefydliadau addysg bellach ac uwch? 	<ul style="list-style-type: none"> • Addasrwydd y safle ar gyfer datblygu defnydd cymysg. • Agosrwydd at leoliadau cyflogaeth allweddol presennol ac arfaethedig (e.e. parciau busnes, ystadau diwydiannol a chlystyrau cyflogaeth trefol). • Agosrwydd at seilwaith addysg a chapasiti'r seilwaith hwnnw. • Bwriad i ddarparu seilwaith addysg newydd neu well o fewn safleoedd ymgeisiol.
<p>4) Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwneud gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd yn fwy hygyrch drwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafndiaeth cynaliadwy, gan sicrhau mynediad hefyd at ddulliau cyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd da</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gwneud gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd yn fwy hygyrch? • Yn gwella cysylltedd o fewn ardal CBSC a hefyd ag ardaloedd eraill? • Yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir ac yn hybu newid i fathau o deithio sy'n fwy cynaliadwy, yn cynnwys rhai ar gyfer pobl a nwyddau? • Yn helpu i gynyddu teithio llesol? • Yn gwella hygyrchedd, capasiti a diogelwch y rhwydwaith trafndiaeth? • Yn lleihau llifau traffig a thagfeydd? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus (safleoedd bysiau a gorsafoedd trenau). • Agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol (traffyrdd a chefnffyrdd). • Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol presennol. • Agosrwydd at fannau cyfyng sy'n creu tagfeydd. • Argaeledd a chapasiti'r seilwaith cyfleustodau i wasanaethu'r safle. • Bwriad i ddarparu seilwaith trafndiaeth neu gyfathrebu newydd neu well o fewn

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gwella ansawdd trafniadaeth gyhoeddus a'r integreiddio â hi? • Yn gwella'r ddarpariaeth o seilwaith cyfathrebu o ansawdd da? • Yn gwella'r seilwaith cyfleustodau er mwyn hybu twf economaidd a chwrdd ag anghenion y boblogaeth? 	<p>safleoedd ymgeisiol neu'n gysylltiedig â nhw.</p>
<p>5) Tai: Darparu nifer a dewis digonol o dai fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn cwrdd ag anghenion a bennwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn helpu i hwyluso darparu mwy o dai i gwrdd â'r gwahanol anghenion a bennwyd? • Yn gwella ansawdd y stoc dai? • Yn lleihau digartrefedd a gorlenwi tai? • Yn cynyddu cymysgedd, dewis a fforddiadwyedd tai? • Yn darparu tai sy'n cymell ymdeimlad o berthyn i gymuned? • Yn darparu safleoedd a lleiniau digonol sydd eu hangen ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Capasiti tai y safle. • Y gallu i ddarparu tai fforddiadwy yn rhan o unrhyw ddatblygiad preswyl. • Addasrwydd y safle ar gyfer datblygu defnydd cymysg. • Mathau o ddefnydd tir cyfagos. • Agosrwydd at safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr • Agosrwydd at Safleoedd Ewropeaidd sy'n agored i effaith pwysau hamdden.
<p>6) Twf Economaidd: Sicrhau twf economaidd cynaliadwy a chynyddu cyfraniad economaidd ardal CBSC at ranbarth Gogledd Cymru, yn cynnwys drwy amrywio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn sicrhau'r math priodol o ddatblygu a gweithgareddau economaidd yn y lleoliad iawn er mwyn cynyddu cystadleurwydd economaidd? • Yn helpu i amrywio'r economi leol? • Yn denu mewnfuddsoddi? 	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu'r safle i ddarparu ar gyfer mathau defnydd diwydiannol ac economaidd. • Mathau o ddefnydd tir cyfagos, yn cynnwys manteision posibl o gydgrynhoi.

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cefnogi arloesi a mentrau newydd? • Yn hyrwyddo cydleoli gweithgareddau economaidd, diwydiannau a mathau defnydd tir synergaid? • Yn cefnogi amrywiaeth o fathau a meintiau busnes? • Yn darparu'r seilwaith a'r gweithleoedd sydd eu hangen ar gyfer busnesau newydd a phresennol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at y rhwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus a ffyrdd strategol.
<p>7) Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion niweidiol mewn aer a lleihau'r cysylltiad ag aer o ansawdd gwael.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cynnal neu wella ansawdd aer? • Yn lleihau'r cysylltiad ag aer o ansawdd gwael? • Yn atal ac yn lleihau allyriadau o lygryddion niweidiol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA). • Agosrwydd at fannau cyfyng sy'n creu tagfeydd. • Allyriadau dichonol o weithrediadau.
<p>8) Newid Hinsawdd: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac ymaddasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan sectorau economaidd allweddol? • Yn helpu i leihau'r defnydd o ynni? • Yn helpu i ddarparu ynni adnewyddadwy a charbon isel a lleihau'r ddibyniaeth ar ffynonellau ynni anadnewyddadwy? • Yn hwyluso buddsoddi mewn seilwaith carbon isel a chynaliadwy ac yn hyrwyddo'r defnydd ohono? • Yn gweithredu mesurau osgoi ac ymaddasu i ddelio ag effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys mwy o berygl o lifogydd, drwy gyfeirio 	<ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth o ddulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel ar y safle. • Agosrwydd at y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus. • Capasiti'r safle i gynnwys mesurau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
	<p>datblygu oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn hyrwyddo dylunio cynaliadwy sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn gallu ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd? 	
<p>9) Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Cadw, gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, yn cynnwys drwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn sicrhau bod mesurau priodol i ddiogelu integreidd ac amcanion cadwraeth safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol neu leol oherwydd eu gwerth o ran bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth neu warchod rhywogaethau? • Yn gwarchod ac yn hybu rhywogaethau a chynefinoedd o werth? • Yn diogelu rhag colli neu ddarnio cynefinoedd? • Yn gwarchod neu'n hybu coed a warchodir neu goetiroedd pwysig? • Yn gwella'r mynediad at fyd natur? • Yn adfer tir a dŵr daear y gwyddom eu bod wedi'u halogi? • Yn diogelu'r tir amaethyddol sydd o'r ansawdd gorau ac sy'n bwysig yn lleol? • Yn gwarchod ac yn gwella adnoddau pridd pwysig? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol neu leol er mwyn gwarchod bioamrywiaeth, neu ar sail eu pwysigrwydd ecolegol neu ddaearegol, a'i effeithiau arnynt. • Agosrwydd at goetiroedd a ddynodwyd a choed neu wrychoedd pwysig. • Tystiolaeth o gynefinoedd neu rywogaethau o werth ar y safle neu'n gyfagos iddo. • Effeithiau dichonol ar gysylltedd cynefinoedd a'r perygl o'u darnio. • Dosbarthiad tir amaethyddol. • Math ac ansawdd y pridd.

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
<p>10) Dŵr a Pherylg o Lifogydd: Gwarchod, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr a'r glannau, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, gan leihau'r perygl o lifogydd. Rhaid lleoli datblygiadau fel na fyddant yn cynyddu'r perygl o lifogydd a dylid eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gwella ansawdd cyrff dŵr gan helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr? • Yn cynnal neu'n gwella statws ecolegol a chemegol yr amgylchedd dŵr? • Yn effeithio ar ddraenio a llifau dŵr wyneb, yn cynnwys dŵr wyneb ffo sy'n llifo i gyrff dŵr neu'n cael ei dynnu ohonynt? • Yn cefnogi gwelliannau yn y seilwaith dŵr (cyflenwad dŵr a charthffosiaeth)? • Yn lleihau'r perygl o lifogydd o'r holl ffynonellau llifogydd i'r holl bobl, eiddo, seilwaith ac asedau amgylcheddol? • Yn rheoli peryglon llifogydd gweddillol yn briodol ac yn osgoi peryglon llifogydd newydd? • Yn ceisio lleihau'r datblygu newydd mewn ardaloedd sy'n agored i'r perygl o lifogydd neu'n lliniaru'r perygl hwnnw? • Yn hyrwyddo'r defnydd o systemau draenio trefol cynaliadwy? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agoswydd at Barthau Perygl o Lifogydd. • Agoswydd at gyrff dŵr a dyfrhaenau. • Agoswydd at beryglon amgylcheddol fel ardaloedd lle mae perygl o lifogydd a newid yn yr arfordir.
<p>11) Mwynau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gan effeithio i'r graddau lleiaf posibl ar yr amgylchedd a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy, yn cynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir? • Yn hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol? • Yn trin ac yn prosesu gwastraff gan effeithio i'r graddau lleiaf posibl ar yr amgylchedd? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agoswydd at gyfleusterau casglu gwastraff. • Dangos yr angen am gloddio mwynau mewn man penodol.

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
	<ul style="list-style-type: none"> • Yn lleihau'r galw am ddeunyddiau crai a'r angen am gloddio mwynau? • Yn hyrwyddo'r defnydd o adnoddau lleol ac yn lleihau maint y mwynau a gaiff eu mewnfario? 	
<p>12) Llunio Lleoedd Cynaliadwy: Defnyddio tir a seilwaith yn y ffordd fwyaf effeithlon a gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd gwych i bobl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn hyrwyddo pensaernïaeth a dylunio o ansawdd da sy'n cryfhau nodweddion unigryw lleol ac yn meithrin naws am le? • Yn creu ac yn cynnal tir deniadol a diogel i'r cyhoedd sy'n cymhell pobl i gerdded a beicio? • Yn sicrhau datblygu sy'n briodol o ran ei leoliad, ei raddfa, ei grynhoad a'i ddwysedd? • Yn gwneud y defnydd gorau o dir, yn cynnwys drwy roi blaenoriaeth i ailddatblygu safleoedd tir llwyd a lleoli mathau o ddefnydd sy'n denu nifer mawr o bobl yn agos i'r rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus? • Yn lleihau cyfleoedd i droseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol drwy leoliad a dyluniad datblygiadau newydd? • Yn darparu tir i'r cyhoedd y mae ei ddefnyddwyr yn teimlo ei bod yn ddiogel ei ddefnyddio bob amser? 	<ul style="list-style-type: none"> • Tir llwyd a thir maes glas a ddatblygwyd o'r blaen. • Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol
<p>13) Treftadaeth Ddiwylliannol: Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, yn cynnwys y defnydd o'r Gymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cynyddu argaeledd a hygyrchedd gweithgareddau/lleoliadau diwylliant, hamdden ac adloniant? • Yn gwarchod, yn diogelu ac yn gwella integreidd, cymeriad a lleoliad asedau treftadaeth? • Yn diogelu ac yn gwella ansawdd ardaloedd o 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at dirweddau a ddynodwyd ar lefel genedlaethol neu leol a'i effeithiau dichonol arnynt. • Bwriad i aildddefnyddio adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol.

Amcanion AG	Cwestiynau Canllaw'r AG – A fydd y CDLI newydd...	Dangosyddion Cynaliadwyedd ar gyfer Aseidiadau o Safleoedd Ymgeisiol
	<p>bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn hyrwyddo ail ddefnydd sensitif o adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol? • Yn cadw a lle bo'n briodol yn gwella adnoddau archeolegol pwysig? • Yn diogelu ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? 	<ul style="list-style-type: none"> • Bwriad i gynnwys arwyddion Cymraeg mewn safleoedd ymgeisiol.
<p>14) Tirwedd: Diogelu a gwella cymeriad y dirwedd, amwynder gweledol ac eglurder gofodol yr aneddiadau yn ardal CBSC, gan ystyried priodweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn diogelu ac yn gwella cymeriad y dirwedd? • Yn diogelu nodweddion pwysig yn y dirwedd a'r treflun? • Yn diogelu priodweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri? • Yn diogelu amwynder gweledol a golygfeydd o werth? • Yn atal blerdwf trefol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agosrwydd at dirweddau a ddynodwyd ar lefel genedlaethol neu leol a'i effeithiau dichonol arnynt; • Tystiolaeth o effeithiau dichonol ar amwynder gweledol neu olygfeydd allweddol; • Tystiolaeth o integreiddio neu ymgyfuno ag aneddiadau presennol neu o wahanu oddi wrthynt

